

<b>Teitl:</b>	<b>Swyddog Trwyddedu</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Gweithiwr Ystwyth (gyda phresenoldeb rheolaidd yn y Ganolfan Cyngor ar Dai, Stryd yr Eglwys, Glyn Ebwy)</b>
<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	<b>Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol</b>
<b>Rhif y Swydd:</b>	<b>BG00880</b>
<b>Cyflog:</b>	<b>Gradd 5 (£27,334 - £30,296 y flwyddyn – Codiad Cyflog yn yr Arfaeth yn 2024)</b>
<b>Oriau:</b>	<b>37</b>
<b>Contract:</b>	<b>Parhaol</b>

### **Crynodeb o'r Swydd**

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn profiadol a chryf ei gymhelliant ymuno â'n Tîm Trwyddedu.

Fel rhan o Dîm Trwyddedu bach â pherfformiad uchel, bydd y Swyddog Trwyddedu'n rhoi cymorth gweinyddu a gorfodi, i alluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r swyddogaethau Trwyddedu mewn modd priodol. Gan hynny, byddwch yn gyfrifol am brosesu ceisiadau rheolaidd am amryw drwyddedau, adnewyddiadau, cofrestriadau a hawlenni, gan ymdrin â chwsmeriaid, busnesau, Cyngorwyr etholedig ac asiantaethau partner.

### **Hysbyseb Lawn**

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn profiadol a chryf ei gymhelliant ymuno â'n Tîm Trwyddedu.

Mae'r swydd hon wedi'i dynodi'n un "ystwyth", gan ddarparu ar gyfer cymysgedd o weithio gartref a gweithio mewn swyddfa ac mae gan y tîm leoliad gwaith yn y Ganolfan Cyngor ar Dai, Stryd yr Eglwys, Glyn Ebwy.

Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o weinyddu ceisiadau trwyddedu mewn meysydd megis Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005, trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat, metel sgrap, masnachu ar y stryd a meysydd cyffredinol eraill lle ceir cyfrifoldeb am drwyddedu. Byddwch hefyd yn rhoi cymorth gorfodi, gan gynnal ymweliadau ac ymyriadau fel y bo'n briodol, ymchwilio i gwynion a rhoi cyngor i fusnesau.

Mae gan y Swyddog Trwyddedu rôl bwysig gan weithio gydag asiantaethau partner gan gynnwys Grwpiau Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau, "Awdurdodau Cyfrifol" a mynychu Pwyllgorau Trwyddedu.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â Steve Osborne, Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu ar 01495 369542, neu Helen Jones – Uwch Swyddog Trwyddedu ar 01495 355061.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gymraeg i Wneud Cais am Swydd.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau: 8 Awst 2024 – 12:00am, canol nos**

**Dyddiad Cyfweld: Dydd 20 Awst 2024**